Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Camau Cyntaf Penpych - First Steps Penpych**

**Ysgol Gynradd Gymunedol Pen-Pych**
**Ffordd Blaenrhondda**
**Blaenrhondda**
**Treorci**
**CF42 5SD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Camau Cyntaf Penpych - First Steps Penpych

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Camau Cyntaf i Ddysgu C.B.C |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 09 Mai 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo, ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Maent yn datblygu'n dda wrth iddynt ddilyn eu diddordebau ac archwilio eu hamgylcheddau chwarae yn hyderus. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r staff, gan gydweithredu a chwarae'n hapus gyda'i gilydd. Mae eu sgiliau annibyniaeth yn datblygu wrth iddynt gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau.

Mae'r staff yn ymgysylltu'n dda â'r plant ac yn ymateb i'w hanghenion yn effeithiol. Maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau llawn hwyl yn seiliedig ar ddiddordebau'r plant ac yn annog amgylchedd dysgu a chwarae rhydd ar yr un pryd. Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân iawn. Mae amrywiaeth o ardaloedd chwarae a digon o adnoddau a phrofiadau i annog y plant i chwarae a dysgu'n annibynnol. Mae'r staff yn sicrhau bod amrywiaeth dda o adnoddau a chyfarpar sy'n briodol i oedran y plant ar gael iddynt dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r arweinwyr yn rhedeg lleoliad effeithiol a threfnus. Maent yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel. Mae ganddynt systemau da ar gyfer gwerthuso a gwella eu lleoliad. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff a'r broses recriwtio yn dda. Maent yn meithrin partneriaethau cadarnhaol iawn â'r rhieni, sy'n fodlon iawn ar y gofal y mae eu plant yn ei gael.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau pwrpasol ac yn symud o gwmpas y lleoliad yn hyderus. Er enghraifft, maent yn dewis adnoddau yn rhydd yn y gornel adeiladu, yn archwilio'r ardaloedd awyr agored, yn defnyddio eitemau'r gegin chwarae rôl yn annibynnol ac yn tyllu am drysor yn y pwll tywod. Mae rhai o'r plant yn mynegi eu hunain yn glir gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion tra bod eraill yn cyfathrebu ac yn mynegi eu dymuniadau a'u hanghenion gan ddefnyddio ystumiau dieiriau, fel pwyntio, neu ddefnyddio cardiau fflach ar adegau.

Mae'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn llawn brwdfrydedd ac yn ymdopi'n dda wrth iddynt ffarwelio â'u rhieni a'u gofalwyr. Maent yn meithrin cydberthnasau agos â'r staff, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant a'u cymhelliant. Pan fo angen, mae'r plant yn chwilio am gysur a sicrwydd tyner gan y staff. Er enghraifft, maent yn mynd atynt pan fyddant wedi blino neu'n teimlo'n drist ac mae'r staff yn eu cysuro ar unwaith. Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn gan fod lluniau ohonynt a'u gwaith crefft yn cael eu harddangos drwy'r lleoliad.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau cyfleoedd i chwarae a dysgu. Maent yn dangos diddordeb brwd ac yn ymgysylltu'n dda â'r rhan fwyaf o'r profiadau sydd ar gael iddynt. Mae bron pob un o'r plant yn dangos chwilfrydedd ac yn archwilio amrywiaeth o gyfleoedd chwarae. Er enghraifft, maent yn gyffrous pan fydd aelod o'r staff yn darllen llyfr, ac yn gwrando'n astud ar y stori. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser ac yn ymateb yn gadarnhaol i anogaeth gan y staff. Er enghraifft, wrth ddefnyddio morthwyl a sgriwdreifer i adeiladu a chreu eu tŵr eu hunain. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n dda, er enghraifft pan ofynnir iddynt gasglu eu platiau a'u cwpanau ar gyfer amser byrbryd. Mae'r plant yn mwynhau'r cyfleoedd a'r rhyddid i archwilio'r amgylchedd dan do a'r awyr agored ym mhob tywydd.

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn effeithiol. Maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn tynnu eu cotiau a'u bagiau ac yn eu gosod yn yr uned storio gyda chymorth gan y staff. Mae nifer o'r plant yn cwblhau tasgau hunanofal yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo. Mae'r plant yn dysgu sut i weini eu hunain yn llwyddiannus yn ystod amser byrbryd, heb fawr ddim cymorth gan y staff.

## Gofal a Datblygiad | Da

Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol. Mae'r polisi diogelu yn bodloni'r gofynion. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac yn ymateb yn briodol i senarios yn ymwneud â diogelu. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol yn gyson. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo'n rheolaidd, yn sychu arwynebau ac yn gwisgo dillad amddiffyn priodol pan fo angen. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw drefniadau cysgu na chyfarpar cysgu addas ar waith pan fyddai plentyn yn syrthio i gysgu. Dywedodd yr arweinwyr wrthym nad oedd y plant yn cysgu yn ystod y sesiwn fel arfer. Yn dilyn yr arolygiad, cadarnhaodd yr arweinwyr eu bod wedi prynu cyfarpar er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r staff yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw'r plant yn iach. Maent yn rhannu negeseuon am ddiogelwch â'r plant, er enghraifft, drwy ddweud wrthynt am beidio â dringo ar y byrddau gan y gallant frifo eu hunain. Maent yn cefnogi ac yn annog y plant i gael awyr iach ac yn darparu dewisiadau byrbryd iach. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth yn effeithiol.

Mae'r staff yn cyfathrebu'n dda â'r plant ac yn creu awyrgylch hamddenol ac ymlaciol. Maent yn fodelau rôl cadarnhaol i'r plant ac yn rhyngweithio'n bwrpasol â nhw drwy gydol y sesiwn.
Er enghraifft, maent yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd, gan fodelu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu da. Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant mewn ffordd gadarnhaol ac yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y lleoliad yn effeithiol. Maent wedi datblygu amrywiaeth o strategaethau llwyddiannus i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, fel amrywiaeth o ddulliau tynnu sylw. Er enghraifft, tynnodd aelod o staff sylw un o'r plant oddi ar daflu teganau drwy chwarae gêm o daflu peli meddal i'r cynhwysydd ag ef. Maent yn canmol y plant am ddefnyddio eu geiriau a rhannu adnoddau, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a hunan-barch y plant. Clywsom y staff yn dweud, *“Well done, good boy/girl” a “Da iawn”*.

Mae'r staff yn cefnogi'r plant i ddysgu a datblygu yn effeithiol. Maent yn canolbwyntio'n dda ar ddiddordebau'r plant, eu hanghenion a'u datblygiad unigol.
Maent yn arsylwi ar chwarae a dysgu'r plant yn rheolaidd er mwyn olrhain eu cynnydd, ac mae hyn yn helpu'r staff i gynllunio gweithgareddau i alluogi camau dysgu a datblygu nesaf y plant.
Mae'r lleoliad wedi gweithio'n galed i wella gweithdrefnau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol arnynt. Mae'r staff yn ymwybodol o ddewisiadau unigol y plant ac maent wedi nodi a chasglu neu brynu eu hoff deganau a'u gosod mewn man lle y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd. Maent yn gwybod pa blant sy'n ymateb i aelodau unigol o'r staff yn dda. Mae'r staff yn cydweithio'n dda fel tîm i feithrin hyder a gwydnwch y plant. Maent yn cynnig cyfleoedd diddorol, sy'n seiliedig ar ddewisiadau a phenderfyniadau'r plant. Mae'r staff yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn dda yn y lleoliad.

## Yr Amgylchedd | Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn ddiogel. Mae amrywiaeth o asesiadau risg addas ar waith sy'n sicrhau bod y staff yn gwybod sut i gadw’r plant yn ddiogel. Caiff y drysau allanol eu cadw ar glo, ac mae'r plant, ymwelwyr a'r staff yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael y lleoliad fel mater o drefn. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r safle ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl wiriadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad a'r cyfarpar yn gyfredol. Caiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal a'u cofnodi er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff a'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r lleoliad yn gweithredu o ystafell hunangynhwysol yn yr ysgol gynradd leol. Mae'r safle yn gynnes ac yn groesawgar ac yn darparu amgylchedd effeithiol i'r plant chwarae a dysgu. Caiff yr amgylcheddau dan do ac awyr agored eu defnyddio'n dda i hyrwyddo dysgu a datblygiad, a gall y plant symud yn rhydd rhwng yr ardal dan do a'r ardal awyr agored. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd ar wahân yn yr ystafelloedd chwarae yn galluogi'r plant i ddewis a ydynt am gael amser tawel, cymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith celf, chwarae ar y llawr neu chwarae rôl yn y gornel gartref. Mae'r ardal awyr agored yn ysgogol ac yn cynnwys ardaloedd amrywiol dan orchudd ar gyfer dysgu a chwarae ym mhob tywydd er mwyn diwallu anghenion y plant. Mae hyn yn gwella'r ddarpariaeth i gefnogi datblygiad corfforol y plant a'u dysgu cyffredinol yn dda. Mae'r toiledau o faint plant ac yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, ac mae ardal newid cewynnau addas ar gael.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau sy'n briodol i gam datblygu'r plant ac yn ennyn eu diddordeb yn dda. Mae'r teganau, y dodrefn a'r cyfarpar chwarae yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r lleoliad yn defnyddio deunyddiau go iawn a naturiol yn effeithiol fel rhan o chwarae'r plant, er enghraifft cloriannau, sychwr gwallt, ffôn, cyfrifiadur, teils serameg, adnoddau pren a mes a dail. Mae'r arweinwyr yn annog dysgu gweithredol yn llwyddiannus drwy gynnal gweithgareddau fel chwarae blêr, lle y gall y plant arbrofi a chreu celf ar y teils y gellir eu glanhau. Caiff yr adnoddau eu storio ar lefel isel fel y gall y plant gael gafael arnynt a gwneud eu dewisiadau eu hunain. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn helpu ei hun i'r dewis o baent a phinnau ffelt a oedd ar gael. Mae digon o ddeunyddiau chwarae i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn meithrin dealltwriaeth briodol o'r byd y maent yn byw ynddo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ac maent yn angerddol ac yn frwdfrydig am eu gwaith. Maent yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad ac mae ganddynt bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith, sy'n cyfrannu'n effeithiol at redeg y lleoliad yn ddidrafferth. Mae'r arweinwyr yn adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y staff yn eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Mae datganiad o ddiben cywir a chlir ar waith. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn casglu, yn cofnodi ac yn monitro'r cofnodion gofynnol. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion, gan gynnwys cofrestrau, cofnodion y plant a ffurflenni damweiniau, a oedd yn drefnus iawn. Mae'r mwyafrif o'r cofnodion yn cael eu cynnal yn electronig. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru a rheoleiddwyr eraill pan fo angen.

Mae gan yr arweinwyr system hunanwerthuso effeithiol ar waith i'w helpu i gynllunio sut y byddant yn gwella eu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r adborth gan staff, rhieni a phlant i adolygu ansawdd eu gofal. Maent wedi llunio adroddiad sy'n tynnu sylw at gryfderau a meysydd i'w gwella. Er enghraifft, hyfforddiant y staff, datblygu arddangosfeydd a darparu adnoddau ychwanegol er budd y plant.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd ar gyfer pob aelod o'r staff fel sy'n ofynnol ac maent yn rhoi gweithdrefn sefydlu effeithiol ar waith yn llwyddiannus. Mae'r staff yn gymwys ac yn meddu ar dystysgrifau cyfredol ar gyfer diogelu, hylendid bwyd a chymorth cyntaf. Mae sesiynau goruchwylio rheolaidd ac ystyrlon ac arfarniadau blynyddol yn rhan annatod o'u hymarfer ac yn ysgogi gwelliant. Mae'r system gweithwyr allweddol yn galluogi'r plant i setlo yng nghwmni staff cyfarwydd sy'n deall eu hanghenion unigol. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr arweinwyr a'u bod yn hapus iawn yn eu gwaith.

Mae'r lleoliad wedi meithrin amrywiaeth o bartneriaethau gwerth chweil sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau'r plant. Er enghraifft, maent wedi cyflwyno cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r rhieni a'r gweithwyr allweddol. Mae'r staff yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni a'r gofalwyr am yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu ac am ba mor dda y maent yn datblygu drwy ap cyfathrebu digidol a diweddariadau anffurfiol rheolaidd.

Rhoddodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw adborth cadarnhaol i ni am y gwasanaeth a'r gofal a ddarperir i'w plant. Mae gan yr arweinwyr a'r lleoliad gysylltiadau cryf ag asiantaethau allanol a'r ysgol gynradd leol, sy'n helpu'r plant i symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg yn dda.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/07/2024